



CYSWLLT

@ storeyarms@caerdydd.gov.uk

01874 623598

www.storeyarms.com

Canolfan Storey Arms
Libanus, Aberhonddu LD3 8NL



CYNNWYS

Ein Tîm
Ein Cynllun
Ein Canolfan
Ein Hoffer
Ein Trafnidiaeth
Materion Meddygol

DIWEDDARIAD COVID-19

MEHEFIN 2020

Rydym ni yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored 'Storey Arms' yn gwybod pa mor bwysig yw hi i blant a phobl ifanc gael profiad o'r awyr agored. Rydym yn cydnabod bod angen y profiadau hyn nawr, yn fwy nag erioed, yn dilyn pandemig y Coronafeirws a'r effaith y mae'n ei gael ar ein hiechyd a'n lles emosiynol.

Mae ein tîm wedi ymrwymo i leihau'r risg o ledaenu'r feirws ac rydym yn rhoi mesurau ar waith fel y gallwn ddechrau gweithio gyda'n cleientiaid eto cyn gynted â phosibl.

Roeddem am rannu gyda chi sut rydym yn bwriadu lleihau'r risg yn ein Canolfan ac wrth gynnal gweithgareddau, tra'n dal i fwynhau'r cyfoeth sydd gan Storey Arms i'w gynnig.

Yn Gyntaf Oll

Os yw plentyn, person ifanc, aelod o staff, neu unrhyw un sy'n byw yn eu cartref, yn profi unrhyw un o'r symptomau Covid-19 gwybyddus, rhaid iddynt aros gartref a dilyn canllawiau hunan-ynysu.

Mae symptomau cyffredin yn cynnwys:

- Tymheredd uchel
- Peswch parhaus newydd
- Unrhyw golled neu newid i'ch synnwyr arogleuo neu flasau
- Blinder

I gael rhagor o wybodaeth, holwch eich Bwrdd Iechyd lleol.

Pa ganllawiau rydym yn ei ddilyn?

Rydym yn cadw at ganllawiau a roddir gan dimau Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Addysg Caerdydd i sicrhau bod y mesurau hyn yn cynnig cysondeb ar gyfer disgyblion a staff sy'n ymweld.

Byddwn yn dilyn datblygiadau mewn meysydd eraill fel dysgu yn yr awyr agored, trafndiaeth, offer gweithgareddau arbenigol, mynediad i amgylcheddau gweithgareddau awyr agored a dan do, ac ati, er mwyn defnyddio'r arferion gorau presennol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- [OEAP Wales](#)
- [Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog](#)
- Outdoor Alliance Wales

EIN TÎM

Mae ein tîm staff yn cael ei gefnogi gan raglenni lles a hyfforddiant staff Cyngor Caerdydd, o ran materion a gweithdrefnau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â Covid-19. Mae hyn yn caniatáu i'n staff weithio gyda'i gilydd yn ddiogel er mwyn i ni allu gweithio'n ddiogel gyda chi.

Mae ein tiwtoriaid awyr agored yn hynod brofiadol o ran darparu rhaglenni addysg awyr agored ac maent yn gweithio ar weithdrefnau newydd ar gyfer ein gweithgareddau gan ganiatáu ar gyfer gofynion cadw pellter cymdeithasol a hylendid.

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau o ran arfer gorau, gan sicrhau bod aelodau ein tîm wedi'u hyfforddi'n llawn i'w gweithredu.

Yn seiliedig ar yr arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru (19 Mehefin), mae'n annhebygol y byddwn yn gallu derbyn grwpiau preswyl yn Storey Arms yn y dyfodol agos. Mae hyn yn golygu, yn anffodus, na allwn groesawu ein cwsmeriaid sy'n ymweld o ymhellach i ffwrdd nes bydd yr arweiniad hwn yn newid.

Fodd bynnag, rydym yn ffodus bod y rhan fwyaf o'n cleientiaid yn agosach ac rydym yn edrych ar ffyrdd o allu dechrau gweithio gyda chi cyn gynted ag y gallwn.

Bydd ein cynlluniau yn seiliedig ar system Coch-Ambr-Gwyrdd Llywodraeth Cymru ac rydym yn disgwyl gallu cynnal rhai gweithgareddau mewn lleoliadau yn nes at Gaerdydd i ddechrau, gyda gweithgareddau dydd ychwanegol wedi'u lleoli yn Storey Arms yn cael eu cyflwyno pan fydd modd gwneud hynny.

[Gweler ein dogfen "Ailagor Canolfan Storey Arms yn Raddol"]

Rydym hefyd yn datblygu amrywiaeth o adnoddau i athrawon a theuluoedd dros yr wythnosau nesaf. Bydd y rhain yn syniadau ar gyfer sesiynau dysgu ymarferol a hwyliog yn yr awyr agored y gellir eu defnyddio gartref neu yn yr ysgol, ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a gwahanol rannau o'r cwricwlwm.

Ar gyfer grwpiau Gwobr Dug Caeredin, rydym yn datblygu rhai sesiynau 'cynghorion gwych' ar fideo ar gyfer crefft gwersylla a chwilio'r ffordd.

Rydym wedi cychwyn ar broses o asesu risg defnyddio adeiladau a thiroedd Storey Arms. Unwaith y gallwn groesawu grwpiau i'r ganolfan, bydd gennym weithdrefnau newydd ar waith ar gyfer symud o gwmpas yr adeiladau a'r tiroedd.

Gan fod llai o risg y gall y feirws ledaenu yn yr awyr agored, byddwn yn defnyddio pob ardal awyr agored mewn modd mor greadigol â phosibl fel y gallwn gynnig ystod o weithgareddau ar y safle. Byddwn hefyd yn defnyddio ein pabell fawr fel man bwyta yn yr awyr agored, gan ganiatáu llif awyr sylweddol tra bydd y disgyblion yn bwyta'r pecynnau bwyd y maent wedi dod gyda nhw.

Byddwn yn darparu gorsafoedd golchi dwylo dan do ac yn yr awyr agored a byddwn yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd ynghylch golchi eu dwylo a chysylltiad ag eraill.

Bydd gennym raglen lanhau lem ar waith i sicrhau bod y ganolfan yn ddiogel rhwng ymweliadau.

Pan fydd modd i ni agor ein cyfleusterau preswyl, byddwn yn cyfyngu ar feintiau grwpiau fel y gallwn ddilyn yr arweiniad ar gadw pellter cymdeithasol sydd ar waith ar y pryd. Bydd hyn yn berthnasol i'r ardaloedd cysgu, y cyfleusterau newid/cawodydd a'r man bwyta.

EIN CYNLLUN

EIN CANOLFAN

EIN HOFFER

Byddwn yn gallu cynnig offer y ganolfan, ond byddwn yn croesawu cleientiaid i ddod â'u hoffer eu hunain os oes offer ganddynt, megis siacedi/trowsus gwrth-ddŵr, esgidiau glaw a sachau teithio. Mae gennym weithdrefnau ar waith ar gyfer storio a glanhau offer a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Pan fydd modd i ni gynnig mwy o weithgareddau technegol, byddwn yn dilyn yr arfer gorau ar gyfer defnyddio a glanhau offer technegol.

EIN TRAFNIDIAETH

Mae cyfyngiadau cyfredol yn golygu na allwn gludo'r nifer arferol o deithwyr yn ein bysus mini. Rydym wedi derbyn arweiniad gan Gyngor Caerdydd yn cefnogi hyn.

Wrth i ni ddechrau cynnig gweithgareddau y tu allan i safleoedd ysgolion, efallai y byddwn yn gofyn i ysgolion am gymorth i gludo grwpiau i leoliadau lleol ac, yn y pen draw, i Ganolfan Storey Arms.

MATERION MEDDYGOL

Byddwn yn gofyn i ysgolion wirio ar fore unrhyw weithgaredd nad oes unrhyw ddisgybl neu aelod o staff yr ysgol yn arddangos unrhyw symptom o Covid-19 waeth pa mor fach (neu unrhyw aelod o'u haelwyd). Efallai y bydd yn rhaid i ni ganslo'r sesiwn weithgareddau os bydd angen.

Os bydd unrhyw un yn dechrau teimlo'n sâl yn ystod y sesiwn, byddwn yn ei ynysu ar unwaith, yn ogystal â'r is-grŵp y mae'n rhan ohono. Bydd gennym weithdrefnau ar waith i ddelio â'r posibilrwydd hwn.

Cofiwch - GOLCHWCH EICH DWYLO!